William Trewartha (Billy) Bray 1794–1868

Pregethwr yr Efengyl

Ganwyd William Trewartha Bray yn Twelveheads ym mhlwyf Kea ger Truro, Cernyw, ar 1 Mehefin 1794. Roedd yn un o dri o blant i William Bray, mwynwr tun oedd yn Fethodist, a'i wraig, Ann.

Pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed gadawodd gartref er mwyn mynd yn fwynwr tun i Ddyfnaint ac yno bu'n byw yn afradlon gan fynd i yfed yn drwm. Ar ôl saith mlynedd dychwelodd i Gernyw a phriodi Joanna oedd hefyd wedi gwrthgilio oddi wrth Gristnogaeth. Ond yr oedd Duw ar waith.

Yn raddol fe gafodd Billy dröedigaeth, a dylanwad mawr arno oedd clywed darlleniad o waith John Bunyan, *Visions of Heaven and Hell,* a'i dychrynodd i ddyfnderoedd ei enaid wrth iddo ystyried beth a allai ddigwydd i feddwyn afreolus. Daeth awydd anorchfygol drosto i godi o'i wely un noson er mwyn gweddïo, a gweddïodd hyd y bore. Yn yr un cyfnod dechreuodd ddarllen y Beibl a phori yn llyfr emynau'r Wesleaid.

Roedd Twelveheads yn agos i ganolfan ddiwygiadol John Wesley ym mhwll Gwennap. Roedd taid Billy yn un o ddychweledigion John Wesley ac fe'i cynorthwyodd i adeiladu capel Twelveheads.

Wedi dod i gredu datblygodd Billy i fod yn dipyn o ddiwygiwr ei hun gan bregethu yn lleol a gweithio gydag enwad y Bible Christians.

Adeiladodd lawer o gapeli â'i ddwylo ei hun, a'r cyntaf ohonynt oedd Bethel, Cross Lanes. Daeth Billy yn enwog oherwydd ei fod wrth addoli Duw a diolch am ei gariad yn dueddol o neidio a dawnsio.

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ei hunangofiant ef oedd un o'r llyfrau a werthodd fwyaf o gopïau. Dywedodd, 'Petaent yn fy rhoi mewn casgen byddwn yn gweiddi gogoniant trwy dwll y corcyn.'

Roedd yn arweinydd carismataidd a bwysleisiai weddi, iachau a chadw'r Sabath. Gwrthwynebai hefyd yfed ac ysmygu. Bu farw ar 25 Mai 1868 yn Twelveheads, ac fe'i claddwyd yn Baldhu.